Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Isaac, Trefynwy

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-347-9

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1.Yr hyn a wnaethom....5

2.Crynodeb o'r arolygiad....6

3.Yr hyn a nodwyd gennym....8

- Ansawdd Profiad y Claf....8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol....11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth....15

4.Y camau nesaf....16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad....17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith....18

Atodiad C – Cynllun gwella....19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Isaac, Trefynwy ar 27 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Practis Deintyddol Isaac yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion yn cael eu dosbarthu i'r cleifion ar ôl eu triniaeth ac roedd yr holl ymatebion a adolygwyd gennym yn gadarnhaol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau da ar waith ar gyfer cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.
- Roedd gwybodaeth i'r cleifion ar gael yn y man aros, megis taflenni gwybodaeth i'r cleifion a gweithdrefn gwyno'r practis.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, ac yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar waith. Dangosodd adolygiad o gofnodion hyfforddi'r staff hefyd fod yr holl staff wedi'u diweddaru â hyfforddiant diogelwch tân. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion hefyd. Roedd pob un wedi'i gynnal i safon uchel ac roedd y nodiadau'n glir ac yn ddarllenadwy.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Practis Deintyddol Isaac a phractis deintyddol arall yn gweithredu o fewn yr un adeilad. Felly, roedd gan y ddau bractis gyfrifoldeb am rai gwelliannau angenrheidiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen tystiolaeth arnom i ddangos bod y peiriant golchi yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-04 a bod y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o’i ddefnydd.
- Rhaid i'r staff drefnu i waith cynnal a chadw gael ei wneud ar yr awtoclaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y ddeintyddfa yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Roedd y practis yn cadw cofrestr helaeth o bolisïau, ac roedd pob un ohonynt yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff yn eu hadolygu'n flynyddol ac yn llofnodi ar ôl eu darllen.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli Practis Deintyddol Isaac o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn yn eu rôl. Gwelsom dystiolaeth fod llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff ac roedd pob un yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl staff yn amlwg yn ymroddedig i'w rolau.
- Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a brechiadau Hepatitis B ar gyfer yr holl staff perthnasol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Cadw'n Iach

**Diogelu a Gwella Iechyd**

Gwelsom fesurau yn dal i fod ar waith yn y deintyddfa i amddiffyn rhag lledaeniad COVID-19. Roedd staff clinigol ac anghlinigol yn parhau i wisgo gorchuddion wyneb, ac felly hefyd y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis. Dywedodd y staff wrthym hefyd y cysylltwyd â'r ceifion cyn eu hapwyntiad i wirio am unrhyw symptomau COVID-19 neu salwch anadlol. Holodd y staff hefyd am iechyd y cleifion ar ddiwrnod eu hapwyntiad ac roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi mewn cofnodion hanes meddygol.

Roedd enw'r practis wedi'i arddangos yn glir y tu allan i'r adeilad, yn ogystal ag oriau agor y practis a'r rhifau cyswllt brys a thu allan i oriau.

### Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd yn amlwg bod staff Practis Deintyddol Isaac wedi ymrwymo i gynnal urddas a phreifatrwydd eu cleifion. Roedd yr unig ystafell driniaeth yn y practis ar y llawr cyntaf, a gwelsom y drws yn cael ei gadw ar gau yn ystod pob apwyntiad. Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli yn ardal aros y practis, sy'n golygu y byddai sgyrsiau rhwng y staff a'r cleifion yn cael eu clywed o bosibl. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis wrthym y bydd yn aml yn cyfathrebu â'r cleifion trwy e-bost os gallant.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw gleifion yn mynychu'r practis sy'n dymuno sgwrsio yn Gymraeg. Oherwydd lleoliad y practis, dywedwyd wrthym mai ychydig iawn o'r cleifion oedd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn defnyddio Ap ffôn cyfieithu wrth drin y cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Roedd y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), wedi'u harddangos yn glir ym man aros y practis.

**Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth gyffredinol am Bractis Deintyddol Isaac ar gael yn y man aros. Roedd y wybodaeth a arddangoswyd yn cynnwys rhestr o gostau a thaflen wybodaeth i'r cleifion. Cadarnhaodd adolygiad o'r daflen wybodaeth i gleifion ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**
Dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym mai anaml iawn yr oedd y practis yn profi oedi, ond pe bai oedi, byddai'r staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion a hefyd yn cynnig yr opsiwn iddynt aildrefnu eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym nad oedd system archebu ar-lein yn cael ei defnyddio yn y practis. Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, a gwelsom gleifion hefyd yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb â staff y dderbynfa.

Dywedodd y staff yn y dderbynfa wrthym am y broses ar gyfer trefnu apwyntiadau brys. Roedd staff y dderbynfa yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau arferol ac achosion brys ar gyfer y ddau bractis deintyddol yn yr adeilad. Roedd gan Bractis Deintyddol Isaac slotiau penodedig bob dydd, a oedd yn cael eu cadw ar gyfer apwyntiadau brys. Gallai'r cleifion ffonio ar y diwrnod i drefnu apwyntiad brys pe bai angen.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth.**
Gwelsom dystiolaeth o bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cynhwysfawr ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i darllen a'i llofnodi gan y staff. Roedd yn amlwg bod y polisi yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i sicrhau bod anghenion unigol pob claf yn cael eu diwallu.

**Hawliau pobl**
Daw yn amlwg, o sgyrsiau â staff, eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio rhagenwau dewisol y cleifion. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod nodwedd ar waith ar eu system archebu i ddangos y rhagenw a ffefrir gan bob claf, a fyddai’n tynnu sylw ato wrth gael mynediad at wybodaeth y cleifion.

Gan fod y practis wedi'i leoli mewn hen adeilad teras gyda lle cyfyngedig, nid oedd yn gallu cynnig mynediad llawn i bobl ag anableddau. Roedd yr ystafell driniaeth ar

lawr cyntaf y practis ac nid oedd lifft ar gael. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod unrhyw unigolion sy'n chwilio am driniaeth ac sydd angen mynediad i'r anabl yn cael eu cyfeirio at bractis cyfagos, a allai ddiwallu eu hanghenion.

**Gwrando a dysgu o adborth**

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn glir yn y man aros. Roedd y wybodaeth am gwynion yn cynnwys y broses i'w dilyn, yr amserlenni ar gyfer ymateb, ac enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion.

Darparodd y staff gopïau o arolygon y cleifion wedi'u cwblhau i ni. Dosbarthwyd y rhain i'r cleifion ar ddiwedd eu triniaeth. Cafwyd adborth cadarnhaol ym mhob arolwg a adolygwyd gennym. Gwelsom hefyd flwch awgrymiadau ar ddesg y dderbynfa.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**
Roedd y cynllun ym Mhractis Deintyddol Isaac yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol. Roedd y man aros, y dderbynfa, y man staff a'r ystafell ddadheintio i gyd yn cael eu rhannu â'r practis arall a oedd yn gweithredu yn yr adeilad. Ar lawr cyntaf yr adeilad, roedd gan bob practis ei feddygfa ei hun ar wahân.

Gwelsom fod pob rhan o'r adeilad yn lân ac, ar y cyfan, yn daclus. Fodd bynnag, yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwnaethom nodi bod yr ardal y tu allan i'r toiled yn llawn planhigion a bwcedi mop. Er bod y planhigion yn perthyn i'r practis arall yn yr adeilad, roeddent wedi'u lleoli mewn ardal a rennir gan y ddau bractis. Roedd y bwcedi mop yn achosi perygl baglu i'r staff a'r cleifion sy'n defnyddio'r ardal hon. Ar ôl ein hymweliad, cawsom dystiolaeth ffotograffig fod y man hwn wedi'i glirio a bod lle penodol wedi'i neilltuo ar gyfer mopiau.

Cynhaliwyd arolygiad o'r practis arall yn yr adeilad dridiau cyn arolygiad Practis Deintyddol Isaac. Yn ystod yr arolygiad hwn, amlygwyd risgiau yn seler yr adeilad. Roedd cofnodion cleifion y ddau bractis yn cael eu storio yn y seler, ond roedd rhai o'r rhain yn cael eu storio'n agos at y ddau gywasgydd. Gwnaethom godi'r mater hwn fel risg tân. Yn ystod ein harolygiad o Bractis Deintyddol Isaac, gwelsom dystiolaeth fod y cofnodion wedi'u symud, gan leihau'r risg o dân. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cabinetau gwrth-dân wedi'u harchebu i storio'r cofnodion papur yn y dyfodol.

Er bod y rhan fwyaf o'r practis mewn cyflwr da, gwelsom mai dim ond o'r tu mewn y byddai'r drws cefn, a oedd yn arwain at y storfa wastraff, yn agor, gan olygu nad oedd y staff yn gallu ei agor o'r tu allan. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r staff fynd yn ôl i mewn i'r adeilad, pe bai'r drws yn cau y tu ôl iddynt. Codwyd hyn gyda'r staff ac, ers yr arolygiad, rydym wedi derbyn tystiolaeth bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud ar y drws cefn.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn yr adeilad, a gwelsom y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom adolygu hyfforddiant diogelwch tân y staff a chadarnhau bod pob un ohonynt yn gyfredol â hyn.

Gwelsom beiriant golchi dillad yn cael ei ddefnyddio yn ardal y staff; fodd bynnag, ni ellid darparu tystiolaeth i ddangos a oedd hyn yn cydymffurfio â WHTM 01-04 ac

a oedd y cwmni cyfleustodau'n ymwybodol o'i ddefnydd. Roedd y man lle cedwid y peiriant golchi yn cael ei rannu gan y ddau bractis yn yr adeilad, gyda'r ddau hefyd yn defnyddio'r peiriant. Roedd angen y dystiolaeth berthnasol arnom ar gyfer hyn.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod tawelydd ymwybodol yn cael ei ddarparu ym Mhractis Deintyddol Isaac. Darparodd ymarferydd meddyginiaethau tawelu crwydrol hyn. Nid oedd eu hoffer a chofnodion y staff yn cael eu cadw yn y practis.

Gwnaethom gysylltu â'r gweithiwr proffesiynol a oedd yn darparu'r tawelydd ymwybodol ar gyfer y practis, a rhoddwyd tystiolaeth o gydymffurfio addas a thystysgrifau hyfforddi perthnasol.

**Mae angen tystiolaeth arnom i ddangos bod y peiriant golchi yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-04 a bod y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o’i ddefnydd.**

**Atal a rheoli heintiau**

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol ar gyfer diheintio offer deintyddol, a rhoddwyd archwiliad WHTM 01-05 cyflawn a chyfredol i ni ar gyfer y practis.

Roedd y cyfleusterau diheintio yn cael eu rhannu gan y ddau bractis yn yr adeilad. Gwnaethom argymell bod y practisau'n cytuno ar y trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gan rannu'r canfyddiadau a chwblhau unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd un o'r awtoclafau yn gweithio, oherwydd cerdyn SD diffygiol. O ganlyniad, nid oedd yr awtoclaf yn gallu cofnodi pob cylchred. Dywedodd y staff wrthym nad oedd yn cael ei ddefnyddio nes byddai'n cael ei drwsio. Buom yn siarad â'r staff o'r ddau bractis am bwysigrwydd trwsio hyn yn fuan.

**Rhaid gwneud trefniadau i gynnal a chadw'r awtoclaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.**

**Rheoli meddyginiaethau**

Gwnaethom adolygu'r dogfennau rheoli meddyginiaethau a gweld tystiolaeth o bolisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith.

Cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu cadw yn y practis a dim ond presgripsiynau preifat sy'n cael eu rhoi i'r cleifion i'w cymryd i'w fferyllfa.

Roedd gan y practis bolisi cynhwysfawr ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a dadebru. Gwelsom fod hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i fod yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol cyfredol ar gyfer dadebru.

Roedd yr holl staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-anadlol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**
Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys siart llif â manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Roedd gan reolwr y practis hefyd fynediad at Ap ffôn Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl staff wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dilys ar waith a'u bod wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant diogelu. Roedd yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC).

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl offer perthnasol. Gwelsom hefyd fod y deintyddfa wedi'i threfnu'n dda, yn lân ac yn daclus.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddi'r holl staff clinigol yn y practis. Gwelsom dystiolaeth eu bod i gyd wedi cael hyfforddiant i sicrhau defnydd diogel o offer.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Roedd yn amlwg bod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Amlinellwyd y trefniadau hyn yn y datganiad o ddiben a pholisïau ymarfer amrywiol. Roedd yn amlwg o'n sgyrsiau â'r staff, roeddent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau yn hyn o beth.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Gwnaethom adolygu'r archwiliadau a gynhaliwyd gan y practis. Darparodd y staff dystiolaeth o arolwg y cleifion cyfredol, archwiliad effeithlonrwydd glanhau practis, archwiliad cerdyn cofnod, archwiliad radiograff, archwiliad amser aros, archwiliad hylendid dwylo ac archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau.

Nid oedd gan y practis archwiliad rhoi'r gorau i ysmygu ar waith ar adeg yr arolygiad, ond rydym wedi cael tystiolaeth o un a gwblhawyd yn dilyn yr arolygiad.

Roedd gan y practis bolisi sicrhau ansawdd cyfredol a pholisi archwilio clinigol ar waith. Gwelsom dystiolaeth o'r ddau yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**
Roedd gan y practis bolisi diogelu data a chyfrinachedd y staff ar waith. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

**Cadw cofnodion**
Gwnaethom edrych ar sampl o bump o gofnodion cleifion. Roedd pob un wedi'i gynnal i safon uchel ac roedd y nodiadau'n glir ac yn ddarllenadwy. Roedd pob cofnod a welsom yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Roedd hyn yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli Practis Deintyddol Isaac o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn yn eu rôl.

Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd yn amlwg bod y practis yn cadw cofrestr bolisi gynhwysfawr. Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Roedd pob un yn gyfredol ac wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y staff yn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau bob blwyddyn.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi llunio adroddiad fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi cael tystiolaeth o adroddiad Rheoliad 16 wedi'i gwblhau ar gyfer y practis.

**Y Gweithlu**

Roedd y tîm staff yn cynnwys rheolwr y practis, sef yr unig ddeintydd yn y practis hefyd, dwy nyrs ddeintyddol a dau dderbynnydd rhan amser (y ddau yn gweithio i'r ddau bractis yn yr adeilad). Cawsom wybod am wiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio tystlythyrau a chynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi recriwtio cynhwysfawr ar waith a oedd yn amlinellu'r broses a ddefnyddir i recriwtio staff newydd. Darparodd y staff dystiolaeth i ni hefyd o gyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a chofnodion manwl yn cael eu cofnodi.

Roedd tystiolaeth o frechiadau Hepatitis B ym mhob un o ffeiliau'r staff clinigol. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn adnewyddu eu cofrestriad GDC bob blwyddyn eu hunain. Yna trefnodd rheolwr y practis iddynt gael eu had-dalu.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi chwythu'r chwiban cynhwysfawr ar waith.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Cynhaliwyd arolygiad o'r practis arall yn yr adeilad dridiau cyn arolygiad Practis Deintyddol Isaac. Yn ystod yr arolygiad hwn, amlygwyd risgiau yn seler yr adeilad. Roedd cofnodion cleifion y ddau bractis yn cael eu storio yn y seler, ond roedd rhai o'r rhain yn cael eu storio'n agos at y ddau gywasgydd.** | Nodwyd bod agosrwydd y cofnodion papur at y cywasgydd yn risg tân. | Codwyd hyn gennym fel pryder uniongyrchol, yr oedd angen i'r ddau bractis yn yr adeilad fynd i'r afael ag ef. | Yn ystod ein harolygiad o Practis Deintyddol Isaac, gwelsom dystiolaeth fod y cofnodion wedi'u symud bellter derbyniol oddi wrth y cywasgwyr. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cabinetau gwrth-dân wedi'u harchebu i storio'r cofnodion papur yn y dyfodol |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Isaac

## Dyddiad yr arolygiad: 27/03/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Isaac

## Dyddiad yr arolygiad: 27/03/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Mae angen tystiolaeth arnom i ddangos bod y peiriant golchi yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-04 a bod y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o'i ddefnydd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (2) (a) | Dywedwyd wrth Dŵr Cymru ein bod yn defnyddio peiriant golchi - yn aros am gadarnhad papur<br><br>Llythyr ynghlwm yn cadarnhau atodi falf ôl-lif | Andrew Isaac | Ar unwaith ac wedi'i gwblhau 07/06/2023 |
| Rhaid gwneud trefniadau i gynnal a chadw'r awtoclaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (2) (a) | Cerdyn Cof yn cael ei ddisodli mewn un awtoclaf | Andrew Isaac | Ar unwaith ac wedi'i gwblhau 31/03/2023 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Andrew Isaac**

**Teitl swydd:** **Pennaeth a Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad:** **14/06/2023**